# Cynllun Gwella Blynyddol

# 2014-2015

GWASANAETH TÂN AC ACHUB
Canolbarth a Gorllewin Cymru
Mid and West Wales
FIRE AND RESCUE SERVICE




www.mawwfire.gov.uk

# Cynnwys


Cipolwg 3

Cyflwyniad 4

Eich Gwasanaeth Tân Ac Achub 5

Tîm Arweinyddiaeth Sefydliadol 5

Ein Cynllunio 6

Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011 6

Cynllun Strategol Cyfredol a’r Dyfodol 6

Ein Perfformiad 7

Targedau Perfformiad ar gyfer 2014 - 2015 7

Targedau Perfformiad 2015 a thu hwnt 8

Yr hyn rydym yn bwriadu ei wella 8

Amcan 1 - Gwella Cyfathrebu / Ymgysylltu Mewnol ac Allanol 9

Amcan 2 - Rheoli Cyllidebau Llai i Gynnal Cymunedau Mwy Diogel 10

Amcan 3 - Gwella Gwerthuso 11

Geirfa 12

# Cipolwg

## Ein gwelliannau ar gyfer 2014 - 2015

Yn ystod 2014-15, bydd Awdurdod Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru yn gweithio i gyflawni tri amcan gwella allweddol, y credwn y bydd yn gwella diogelwch a hefyd yn darparu gwasanaethau rhagorol, a fydd yn ymateb i risgiau ac yn cwrdd ag anghenion ein cymunedau.

## Ein hamcanion gwella yw:

**Gwella Ein Cyfathrebu / Ymgysylltu Mewnol ac Allanol**
*Ein canlyniad fydd Staff, Cymunedau a Rhanddeiliaid sy'n cael eu hysbysu'n well ac yn ymwybodol o'r hyn rydym yn ei wneud a pha mor dda rydym yn ei wneud.*

**Rheoli Cyllidebau Llai i Gynnal Cymunedau Mwy Diogel**
*Ein canlyniad fydd parhau i wneud cymunedau'n fwy diogel trwy leihau risgiau a chynnal safonau'r gwasanaethau a ddarperir gennym a hynny â chyllideb lai.*

**Gwella Ein Prosesau Gwerthuso**
*Ein canlyniad fydd deall yn well sut mae ein gweithredoedd yn cyflawni canlyniadau gwell i'n cymunedau, fel sail i gynllunio ar gyfer y dyfodol a gwella'r gwasanaethau a ddarperir gennym.*

Bydd yr amcanion gwella yma'n cael eu cyflawni trwy weithredoedd sy'n gysylltiedig â'r 'meysydd gwella allweddol' a amlinellir yng Nghynllun Strategol Pum Mlynedd 2010-2015 yr Awdurdod. Y 'meysydd gwella allweddol' yw;

- Rheoli Risg
- Rheoli Pobl
- Rheoli Adnoddau
- Cydweithio
- Rheoli Perfformiad
- Rheoli Cyfathrebu*

* Mae Rheoli Cyfathrebu wedi'i ychwanegu yn dilyn atborth gan staff a rhanddeiliaid.

## Ein Perfformiad

Trwy Wella Cynllunio a Lleihau Risg dros y ddegawd ddiwethaf, mae'r Awdurdod wedi gweld gostyngiad sylweddol yn nifer y digwyddiadau y gelwir ni atynt a gwelliant yng nghanlyniadau'r digwyddiadau hynny i'r rhai a effeithir a'r cymunedau lle maent yn digwydd.

| Dangosydd | 2003 / 2004 | Cyfartaledd y 3 Blynedd diwethaf (10/11 i 12/13) | % y Gostyngiad a gyflawnwyd Ar Hyd o Bryd | Targedau 2014 / 2015 |
|---|---|---|---|---|
| Pob Tân | 9192 | 4458 | -51% | 3554 |
| Tanau Sylfaenol | 3456 | 1619 | -53% | 1341 |
| Tanau Damweiniol mewn Anheddau | 759 | 561 | -26% | 408 |
| Marwolaethau mewn Tanau | 13 | 6 | -53% | Sero |
| Anafiadau mewn Tanau | 227 | 61 | -73% | 44 |
| Ffug Alwadau a fynychwyd | 711 | 181 | -74% | 161 |
| Larymau Tân Awtomatig** | 2001 | 1771 | -11% | 1611 |
| Tanau Bwriadol | 6161 | 2399 | -61% | 1983 |

* Oherwydd y tywydd gwlyb iawn yn 2012-13, roedd nifer y tanau glaswellt y bu'n rhaid i'r Gwasanaeth ymdrin â nhw'n isel dros ben.
** Mae galwadau i Larymau Tân Awtomatig wedi parhau i ostwng, er bod nifer y pennau synwyryddion mewn adeiladau wedi cynyddu o flwyddyn i flwyddyn.

**Ffynhonnell. Stats Cymru**

Nid yw lefelau absenoldeb oherwydd salwch gystal ag yr hoffem. Gyda chyfartaledd o 7.9 diwrnod y pen yn cael eu colli, yn erbyn ein targed o 4.83. Erys ein perfformiad yn well na chyfartaledd Cymru ar gyfer Awdurdodau Gwella fodd bynnag, o 8.86 diwrnod.

**Gellir dod o hyd i wybodaeth fanylach am ein perfformiad yn ein Hasesiad o Berfformiad Blynyddol 2012/2013, a gyhoeddwyd ar ein gwefan www.mawwfire.gov.uk ar yr 31[ain] o Hydref 2013.**

# Cyflwyniad

Croeso i Gynllun Gwella Blynyddol Awdurdod Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru ar gyfer 2014-2015. Y cynllun hwn yw blwyddyn olaf y broses o gyflawni'r gwelliannau a nodwyd yn ein Cynllun Strategol 2010-2015, sydd ar gael ar ein gwefan www.mawwfire.gov.uk.

Mae ein pwyslais yn 2014-2015 ar barhau i gyflawni a gwella ar amcanion y blynyddoedd blaenorol, yn ogystal â chanolbwyntio ar amcanion gwella penodol a nodwyd yn yr atborth a gafwyd gan ein cymunedau, staff, rhanddeiliaid a phartneriaid, ac y credwn a fydd yn gwella sut yr ydym yn gweithio a thrwy hynny'r gwasanaethau a ddarparwn ar gyfer ein cymunedau.

Mae Gwasanaethau Cyhoeddus yn parhau i wynebu heriau ariannol digyffelyb, a gwyddom fod yn rhaid i ni chwilio am ffyrdd newydd o weithio a darparu ein gwasanaethau. Mae ein hamcanion gwella hefyd yn dangos bod cyfrifoldeb arnom ni, ynghyd â'n partneriaid a'n cymunedau, i sicrhau newid gwirioneddol trwy gydweithio.

Rydym yn parhau i werthfawrogi a chydnabod bod gan ein cymunedau a'n partneriaid rôl allweddol i'n helpu i wella ein gwasanaeth, i leihau risg ac i ddatblygu cymunedau mwy diogel. Mae pwyslais cenedlaethol ar rymuso cymunedau i ddod at ei gilydd a datrys problemau, er mwyn adeiladu'r gymdeithas yr hoffent ei gweld. Eich Gwasanaeth Tân ac Achub chi yw hwn, a medrwch gyfrannu at ei ffurfio. Rydym yn diolch i'r aelodau hynny o'n cymunedau, ein rhanddeiliaid a'n partneriaid, sydd wedi rhoi o'u hamser i 'ddweud eu dweud' a dylanwadu ar y cynllun gwella hwn.

**Cadeirydd – Y Cynghorydd** Roy Llewellyn


**Prif Swyddog Tân** Richard Smith

## Gofynnwch am Archwiliad Diogelwch Rhag Tân yn y Cartref

Medrwch ofyn am Archwiliad Diogelwch Rhag Tân yn y Cartref ar eich cyfer eich hun neu berthynas dibynnol trwy gysylltu â'r Gwasanaeth ar 0800 169 1234 neu trwy ymweld â www.mawwfire.gov.uk.

Os hoffech gael yr wybodaeth hon mewn iaith neu fformat gwahanol, megis print bras, Braille neu dâp sain, cysylltwch â ni ar 0370 6060699 neu e-bostiwch: mail@mawwfire.gov.uk.

# Eich Gwasanaeth Tân ac Achub




Mae Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru yn cynnwys ardaloedd Awdurdodau Unedol Sir Gaerfyrddin, Ceredigion, Castell-nedd Port Talbot, Sir Benfro, Powys ac Abertawe. Sefydlwyd y Gwasanaeth ym 1996 gan Ddeddf Llywodraeth Leol (Cymru) 1994, yn sgil uno brigadau tân Dyfed, Powys a Gorllewin Morgannwg.

Y Gwasanaeth yw'r mwyaf yn ôl arwynebedd yng Nghymru a Lloegr, gan wasanaethu ardal wledig yn bennaf sy'n ymestyn ar draws 4,500 milltir sgwâr (11,700 km2), a'r trydydd mwyaf yn y Deyrnas Unedig, gyda dim ond Gwasanaethau Tân yr Alban a Gogledd Iwerddon yn fwy. Mae gennym 58 o orsafoedd tân a 1,200 o staff.

Mae'r Gwasanaeth yn ymestyn ar draws bron i ddwy ran o dair o arwynebedd Cymru. Ceir amrywiaeth o risgiau yn ardal y Gwasanaeth, sy'n amrywio o'r diwydiannau petrogemegol yn Aberdaugleddau i'r risgiau sy'n gysylltiedig ag ardaloedd poblog fel Abertawe a Chastell-nedd Port Talbot. Mae gennym gymuned amaethu sylweddol a llawer o ddiwydiannau ysgafn eraill ar hyd a lled yr ardal. Y rhain, ynghyd ag arfordir hir a dyfrffyrdd mewndirol, yw rhai o'r risgiau penodol a wynebir gan y Gwasanaeth.

## Tîm Arweinyddiaeth Sefydliadol

Y Bwrdd Gweithredol yw swyddogaeth reoli uchaf y Gwasanaeth, ac mae'n cynnwys y Prif Swyddog Tân, ac mae'n cael ei gynorthwyo gan bedwar Prif Swyddog arall, sydd â chyfrifoldeb am y Gyfarwyddiaeth Ddatblygu, y Gyfarwyddiaeth Adnoddau, y Gyfarwyddiaeth Risg a'r Gyfarwyddiaeth Darparu Gwasanaethau.

**Prif Swyddog Tân**



**Richard Smith**
OStJ, MA, FIFireE

**Dirprwy Brif Swyddog Tân**



**Paul Bates**
MBA, MIFireE

**Prif Swyddog Cynorthwyol**



**Elizabeth Aitken**
BSc Econ, CPFA

Cyfarwyddwr Adnoddau a Thrysorydd yr Awdurdod Tân

**Prif Swyddog Tân Cynorthwyol**



**Chris Davies**
MBA

Cyfarwyddwr Risg

**Prif Swyddog Tân Cynorthwyol**



**Derek Masson**
MBA Dip/Mgmt MIFireE

Cyfarwyddwr Darparu Gwasanaethau

Mae pob Ardal Reoli Sirol yn paratoi ei Gynllun Cymunedol ei hun, sy'n amlinellu'r prif flaenoriaethau lleol, i sicrhau bod lleihau risg i'n cymunedau'n ganolog i bopeth a wnawn. Gellir gweld y cynlluniau hyn ar ein gwefan www.mawwfire.gov.uk

# Ein Cynllunio

Pob blwyddyn, mae gofyn i'r Awdurdod i ddatblygu ac ymgynghori ar ein cynlluniau ar gyfer y flwyddyn ganlynol. Pan fyddwn yn gwneud hyn, rydym yn dilyn canllawiau Llywodraeth Cymru, i sicrhau bod ein dull o ddatblygu, ymgynghori a chytuno ar y meysydd rydym yn bwriadu eu gwella'n ddealladwy i'n cymunedau, staff a rhanddeiliaid a'u bod yn cael cyfle i rannu eu barnau a'u sylwadau ar y canlyniadau mae'r Awdurdod yn gobeithio'u cyflawni.

Yn achos pob amcan gwella, dylai'r Awdurdod ddweud, yn ei gynllun gwella, wrth y cymunedau, staff a rhanddeiliaid, pa fuddion fydd yn deillio o'r canlyniadau iddyn nhw ac i'r gwasanaethau a ddarperir gennym.

## Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011

Ceir canllaw ar gynllunio gwella ym Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011 ac mae'r canllaw hwn yn weithredol yn achos pob Awdurdod Lleol, Awdurdod Tân ac Achub a Pharc Cenedlaethol.

I gydnabod y rôl sydd gan y Gwasanaeth yn y Gymuned, gellir diffinio gwella mewn nifer o ffyrdd, a bydd yn cyflawni o leiaf un o'r saith agwedd ar wella a nodir isod:

- Gwneud cynnydd yn unol â'r amcanion
- Gwella ansawdd gwasanaethau
- Gwella argaeledd ein gwasanaethau
- Lleihau anghydraddoldeb o ran mynediad at neu elwa ar wasanaethau
- Sicrhau datblygu cynaliadwy
- Gwella effeithlonrwydd
- Arloesi

## Cynllun Strategol Cyfredol a'r Dyfodol

Mae'r Cynllun Strategol ar gyfer 2010-2015 wedi pennu cyfeiriad, gweledigaeth a meysydd gwella ar gyfer y pedair blynedd diwethaf. Cynllun Gwella Blynyddol 2014-15 yw'r flwyddyn olaf i gyflawni'r gwelliannau a nodwyd yn ein Cynllun Strategol Pum Mlynedd, a gellir ei weld ar ein gwefan www.mawwfire.gov.uk.

**Ein Hamcanion Strategol Parhaus yw:**

- Achub bywydau a diogelu cymunedau
- Ennill ymddiriedaeth a pharch ein cymunedau
- Cael ein gweld fel mwy na gwasanaeth brys
- Cyfateb ein hadnoddau i'n blaenoriaethau
- Rheoli o fewn ein cyllideb
- Chwilio a defnyddio adnoddau eraill
- Gwneud arbedion o un flwyddyn i'r llall
- Rheoli ein pobl yn effeithiol
- Datblygu cynlluniau lleihau risg yn llawn
- Datblygu gwaith partneriaeth fwy effeithiol
- Datblygu ein gweithlu i fod yn bobl effeithiol wedi eu grymuso

Mae'r Awdurdod wrthi ar hyn o bryd yn datblygu ei Gynllun Strategol ar gyfer 2015 a thu hwnt. Bydd cyfleoedd i gyfrannu at ddyfodol eich Gwasanaeth Tân ac Achub trwy'r ymgynghoriad, a gynhelir yn ystod haf 2014.

# Ein Perfformiad y Llynedd

Mae'r Awdurdod yn gosod targedau bob blwyddyn ar gyfer gwella, yn unol â dangosyddion perfformiad allweddol.

Mae Dangosyddion Perfformiad Allweddol (DPA) yn ein helpu i gyflawni ein hamcanion, trwy ddiffinio a mesur cynnydd. Mae Llywodraeth Cymru a'r Awdurdod yn cytuno ar y dangosyddion allweddol ac maent yn ddangosyddion y gellir eu mesur ac a fydd yn dangos ffactorau llwyddiant. Mae'r DPA, a ddewiswyd i ddangos amcanion yr Awdurdod, yn allweddol i'n llwyddiant, yn fesuradwy a gellir eu cymharu â Gwasanaethau Tân ac Achub eraill Cymru.

Mae'r DPA a ddefnyddir gennym yn dangos ein hymrwymiad i wneud ein cymunedau'n fwy diogel ac maent yn mesur nifer y;

- Tanau (cyfanswm)
- Tanau Bwriadol
- Tanau Damweiniol mewn Anheddau
- Marwolaethau mewn Tanau
- Anafiadau mewn Tanau
- Ffug Alwadau
- Signalau Tân Diangen
- Dyddiau a gollwyd o ganlyniad i Salwch

Rydym hefyd yn defnyddio amryw o ddangosyddion perfformiad lleol, sy'n ein galluogi i fesur gweithgareddau busnes arferol sy'n bwysig i ni, megis;

- Nifer yr Archwiliadau Diogelwch Rhag Tân yn y Cartref a wnaethpwyd
- Nifer yr Archwiliadau Diogelwch Rhag Tân i Fusnesau
- Canran y Staff Cymwys
- Argaeledd Peiriannau Ar Alwad
- Nifer yr Ymarferion Gweithredol

## Targedau Perfformiad ar gyfer 2014-15

Mae Cynllun Strategol Pum Mlynedd 2010-2015 yn gosod targedau i'w cyflawni erbyn 2015.

| Dangosydd | Targedau 2014 / 2015 | Lefel y gwelliant i'w gyflawni erbyn 2015/2016 |
|---|---|---|
| Pob Tân | 3554 | **Gostyngiad o 30% o 5077 yn 2009/2010** |
| Tanau Sylfaenol | 1341 | **Gostyngiad o 30% o 1915 yn 2009/2010** |
| Tanau Damweiniol mewn Anheddau | 408 | **Gostyngiad o 30% o 584 yn 2009/2010** |
| Marwolaethau mewn Tanau | Ein Hamcan yw Dim Marwolaethau mewn Tanau | **Gostyngiad o 30% o nifer cyfartalog y marwolaethau (7) rhwng 2005/2006 a 2009/2010** |
| Anafiadau mewn Tanau | 44 | **Gostyngiad o 30% o 63 yn 2009/2010** |
| Ffug Alwadau a fynychwyd | 161 | **Gostyngiad o 30% o 230 yn 2009/2010** |
| Larymau Tân Awtomatig | 1611 | **Gostyngiad o 30% o 2302 yn 2009/2010** |
| Tanau Bwriadol | 1983 | **Gostyngiad o 30% o 2833 yn 2009/2010** |
| Sifftiau / Dyddiau a gollwyd oherwydd Salwch | 4.6 o sifftiau / dyddiau fesul gweithiwr sy'n cyfateb i weithiwr llawn amser | **Gostyngiad o 20 % o 5.75 yn 2009/10** |

Rydym wedi gosod targedau lleol a fydd yn sbarduno gwelliant o ran y busnes craidd y byddwn yn ei wneud yn ystod 2014/2015

| Dangosydd Lleol | Targedau 2014 - 2015 | |
|---|---|---|
| Archwiliadau Diogelwch Rhag Tân yn y Cartref | **Yn dibynnu ar arian grant LlC, a fydd yn cael ei benderfynu ym mis Mawrth 2014** | |
| Diogelwch Rhag Tân i Fusnesau | 4000 | **Mae'r ffigwr hwn yn cynnwys adeiladau risg Uchel, Canolig ac Isel** |
| Staff Cymwys | 95% | **Uchafswm o 5% o gyfanswm y sgiliau o fewn y Gwasanaeth sydd ddim yn cydymffurfio** |
| Argaeledd Peiriannau Ar Alwad | 100% | **Rydym yn ymdrechu i sicrhau bod yr holl beiriannau Ar Alwad ar gael 24 awr y dydd, 365 diwrnod y flwyddyn** |
| Ymarferion Gweithredol | 50 | **Byddwn yn cynnal o leiaf 50 o ymarferion gweithredol, er mwyn cynnal ein galluoedd gweithredol ac i brofi ein cynlluniau i ymateb i argyfyngau.** |

Rydym yn gwneud cynnydd da yn unol â'r targedau yma ac rydym yn hyderus bydd ein gwelliannau a'n gweithgareddau diogelwch yn y gymuned yn parhau i leihau nifer y tanau, y marwolaethau, yr anafiadau a'r ffug alwadau.

Gellir dod o hyd i wybodaeth fanylach am ein perfformiad yn ein Hasesiad o Berfformiad Blynyddol 2012 - 2013 ar ein gwefan www.mawwfire.gov.uk.

# Targedau Perfformiad 2015 a thu hwnt

Yn ystod 2014-15, fel rhan o'n Cynllun Strategol newydd ar gyfer 2015 a thu hwnt, byddwn yn datblygu targedau heriol newydd ar gyfer dangosyddion perfformiad cenedlaethol a lleol.  Bydd y targedau hyn yn cael eu datblygu mewn ymgynghoriad â'n cymunedau, staff, rhanddeiliaid a phartneriaid, a byddant wedi'u halinio yn unol â disgwyliadau amcanion Llywodraeth Cymru.

# Yr hyn rydym yn bwriadu ei wella

Yn ystod 2014-15, bydd Awdurdod Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru yn gweithredu ar dri amcan gwella allweddol y credwn y bydd yn gwella diogelwch wrth ddarparu gwasanaethau rhagorol sy'n ymateb i risgiau ac sy'n cwrdd ag anghenion ein cymunedau.

- Gwella Cyfathrebu / Ymgysylltu Mewnol ac Allanol
- Rheoli Cyllidebau Llai i Gynnal Cymunedau Mwy Diogel
- Gwella Gwerthuso

Bydd yr amcanion gwella hyn yn cael eu cyflawni trwy weithredoedd sy'n gysylltiedig â'r 'meysydd gwella allweddol' sydd wedi'u hamlinellu yng Nghynllun Strategol Pum Mlynedd 2010-2015 yr Awdurdod.

Y 'meysydd gwella allweddol' sy'n cynrychioli pob agwedd ar y gwasanaethau a ddarperir gennym yw;

- Rheoli Risg
- Rheoli Pobl
- Cydweithio
- Rheoli Adnoddau
- Rheoli Perfformiad
- Rheoli Cyfathrebu*

Wrth ddatblygu cynllun eleni, rydym wedi gwrando ar ac wedi ystyried atborth a sylwadau a gafwyd yn sgìl ymgynghoriad y llynedd, archwiliad mewnol ac allanol ac yn uniongyrchol gan y cyhoedd a staff.

* Ychwanegwyd Rheoli Cyfathrebu yn dilyn atborth gan staff a rhanddeiliaid.

## Gofynnwch am Archwiliad Diogelwch Rhag Tân yn y Cartref

Medrwch ofyn am archwiliad diogelwch rhag tân yn y cartref ar eich cyfer chi eich hun neu berthynas dibynnol trwy gysylltu â'r Gwasanaeth ar 0800 169 1234 neu trwy ymweld â www.mawwfire.gov.uk.

Os hoffech gael yr wybodaeth hon mewn iaith neu fformat gwahanol, megis print bras, Braille neu dâp sain, cysylltwch â ni ar 0370 6060699 neu e-bostiwch: mail@mawwfire.gov.uk.

## Amcan 1 – Gwella Ein Cyfathrebu / Ymgysylltu Mewnol ac Allanol

*Ein canlyniad fydd bod Staff, Cymunedau a Rhanddeiliaid yn cael eu hysbysu a'u bod yn ymwybodol o'r hyn rydym yn ei wneud a pha mor dda rydym yn ei wneud.*

Mae sut yr ydym yn rhannu gwybodaeth yn allweddol i lwyddiant yr Awdurdod ac i wneud yn siŵr bod pawb sy'n gysylltiedig â ni'n deall yr heriau sy'n ein hwynebu, yn gweld y buddion a'r gwelliannau rydym am eu cyflawni a chyfrannu at ddatrys rhai o'r materion anodd iawn sydd o'n blaenau.

**Rydym yn gwella cyfathrebu / ymgynghori gan fod atborth wedi dweud wrthym**

- Nad oedd cyfathrebu mor eglur ag y gallai fod,
- Bod ein cynlluniau'n anos i'w deall nad yr oedd angen iddynt fod,
- Nad oeddem yn rhoi gwybod digon i eraill am ein llwyddiannau a'r heriau rydym yn eu hwynebu,
- Nad ydym yn rhannu gwybodaeth gystal ag y gallem.

**Y camau y byddwn yn eu cymryd yw**

- Cynyddu ymwybyddiaeth o'n gwasanaethau trwy weithgareddau diogelwch yn y gymuned mwy targedig,
- Rhoi gwybod i'n cymunedau am y gwaith rydym yn ei wneud trwy ddyddiau agored, digwyddiadau ymgysylltu a datganiadau i'r cyfryngau,
- Gwneud ein cynlluniau'n fwy eglur, yn haws i'w deall ac yn fwy hygyrch trwy ddefnyddio'r cyfyngau cymdeithasol / electronig ac ymgysylltu â'r cyhoedd,
- Gweithio'n agos gyda'r staff i gyfleu negeseuon allweddol a gwybodaeth fusnes a derbyn atborth.

**Sut y byddwn yn mesur ac yn adrodd am ein cyflawniadau**

- Gwerthuso samplau o ddyddiau agored trefnedig, digwyddiadau ymgysylltu a datganiadau i'r cyfyngau,
- Mesur nifer y bobl sy'n mynychu ein digwyddiadau ac rydym yn ymgysylltu â nhw i greu ymwybyddiaeth,
- Paratoi mwy o ddatganiadau i'r cyfryngau a'u targedu nhw'n well,
- Trwy geisio atborth gan randdeiliaid a phartneriaid ar sut rydym yn rhannu ac yn defnyddio gwybodaeth i ofyn a yw'n gliriach, yn haws ei ddeall ac yn fwy hygyrch?
- Trwy adolygu canlyniadau arolygon staff a digwyddiadau ymgysylltu yn ystod 2014-15, er mwyn mesur effeithiolrwydd ein cyfathrebu mewnol,
- Trwy ddefnyddio arolygon o fodlonrwydd yn dilyn gweithgareddau diogelwch yn y gymuned a diogelwch rhag tân i fusnesau, er mwyn cyfarwyddo gweithgareddau yn y dyfodol,
- Mesur nifer ac ansawdd yr ymatebion i ymgynghoriadau.

**Beth fydd hyn yn ei olygu i chi**

Bydd ein cymunedau, staff, rhanddeiliaid a phartneriaid yn fwy ymwybodol o'r gwaith a'r lefelau uchel o wasanaeth a ddarperir gennym. Byddwch yn fwy ymwybodol o faterion diogelwch a gobeithiwn y byddwch yn teimlo'n fwy hyderus a thawel eich meddwl bod eich Gwasanaeth Tân ac Achub yn gweithio'n galed i wneud eich cymuned yn ddiogel.

## Amcan 2 – Rheoli Cyllidebau Llai i Gynnal Cymunedau Mwy Diogel

*Ein canlyniad fydd parhau i wneud cymunedau'n fwy diogel trwy leihau risgiau a chynnal ein safonau darparu gwasanaethau a hynny ar gyllideb lai.*

Pob blwyddyn, mae cost rhedeg yr Awdurdod Tân yn codi o ganlyniad i godiadau cyflog, chwyddiant a chynnydd yng nghostau tanwydd ac ynni, hyd yn oed os yw lefelau'r gwasanaethau a ddarperir yn aros yr un fath. Yn 2014/15, er mwyn cynnal yr un gyllideb byddai'n rhaid gwneud arbedion o 2%. Os bydd yn rhaid i'r Awdurdod i gwtogi ar gyllidebau felly, bydd mwy eto o arbedion yn cael eu gwneud. Ar gyfer 2014/15, penderfynodd yr Awdurdod Tân y byddai'n gostwng cyfraniadau'r Awdurdodau Cyfansoddol at gyllideb yr Awdurdod Tân gan 1.56%. Mae hyn yn golygu bydd cyllideb yr Awdurdod Tân yn gostwng o £43.8M i £43.5M, gyda mwy o ddibyniaeth ar gronfeydd wrth gefn i ategu'r gyllideb (gwerth £605K). Mae angen cyflawni gostyngiad real o £1.275M.

Er mwyn paratoi ar gyfer yr arbedion anodd hyn, rydym wedi gwrando ar a cheisio meddwl am yr hyn sy'n bwysig i'n cymunedau, ein rhanddeiliaid, ein partneriaid a'n staff.

**Rydym yn canolbwyntio ar ein cyllideb lai oherwydd bod atborth wedi dweud wrthym**

- Nad ydych chi eisiau ein gweld yn darparu llai o wasanaethau,
- Rydych chi am i ni roi gwerth am arian,
- Rydych chi'n gwerthfawrogi'r gwaith diogelwch yn y gymuned ac addysgol a wnawn,
- Mae ein staff eisiau cyflenwi'r gwasanaethau gorau posib sydd o fewn eu gallu.

**Y camau y byddwn yn eu cymryd yw**

- Parhau gyda thrafodaethau gyda chyrff cynrychiolaidd mewn perthynas â'r trefniadau criwio ar gyfer criwiau diffoddwyr tân Llawn Amser, gyda golwg ar gyflawni arbedion yn y dyfodol, heb effeithio ar y gwasanaethau a ddarperir,
- Ymatal rhag cau gorsafoedd tân,
- Cynnal y trefniadau criwio presennol mewn gorsafoedd criw dydd,
- Gostwng cyllidebau adrannol a strwythur rheoli,
- Cychwyn ar rybuddio detholus mewn gorsafoedd ar alwad, er mwyn lleihau costau, tra'n cynnal y gwasanaethau a ddarperir ar yr un pryd,
- Gostwng y cyllidebau gwasanaethau cyhoeddus, cyflenwadau a gwasanaethau i adlewyrchu rheoli da ac arwain at gostau gostyngol,
- Gohirio rhan fach o'r rhaglen gyfalaf i effaith finimol, a thrwy hynny gostwng costau ad-dalu dyledion,
- Cynyddu'r defnydd o gronfeydd wrth gefn i ategu'r gyllideb refeniw.

**Sut y byddwn yn mesur ac yn adrodd am ein cyflawniadau**

- Darparu gwasanaethau oddi fewn i gyllideb lai,
- Adolygu ein perfformiad yn unol â Siarter Ymateb i Danau mewn Anheddau ar gyfer Cymru Gyfan,
- Cyflawni canlyniadau cytunedig prosiectau penodol a roddwyd ar waith i gyflawni'r gostyngiad gofynnol yn y gyllideb.

**Beth fydd hyn yn ei olygu i chi**

Rydym yn bwriadu gwneud arbedion yn y ffordd rydym yn gwneud pethau, ond ni fydd newid yn yr ymateb i ddigwyddiadau ac yn y gwasanaethau a ddarparwn i wneud cymunedau'n fwy diogel, er efallai byddwn yn eu darparu mewn ffordd wahanol.

Os bydd angen cyflwyno newidiadau i'r ffordd rydym yn darparu gwasanaethau, byddwn yn parhau i ymgysylltu mewn ffordd adeiladol a phositif â staff a'u cyrff cynrychiolaidd.

## Amcan 3 – Gwella Ein Prosesau Gwerthuso

*Ein canlyniad fydd bod y Gwasanaeth yn deall sut mae ein gweithredoedd yn arwain at well canlyniadau i'n cymunedau, fel sail i gynllunio ar gyfer y dyfodol a gwella'r gwasanaethau a ddarperir gennym.*

Gyda disgwyliadau uwch ar wasanaethau cyhoeddus a chyllidebau llai, mae'n bwysig ein bod yn deall sut mae'r camau a gymerir gennym yn arwain at ganlyniadau gwell ac yn rhoi gwerth am arian, amser ac ymdrech.  Er mwyn gwneud hyn, rydym yn sylweddoli bod yn rhaid i ni wella sut yr ydym yn gwerthuso ac yn gwirio ein cyflawniadau.

**Rydym yn canolbwyntio ar wella sut yr ydym yn gwerthuso ein canlyniadau oherwydd bod atborth wedi dweud wrthym**

- Rydych chi eisiau i ni roi gwerth am arian,
- Mae angen i ni ddangos bod ein gweithredoedd yn arwain at ganlyniadau gwell,
- Mae angen i ni ddysgu trwy ein cyflawniadau a chyflawniadau pobl eraill.

**Y camau y byddwn yn eu cymryd yw**

- Rhoi ymagwedd gyd-drefnedig mewn lle a rhaglen i werthuso ar draws y Gwasanaeth,
- Datblygu ein staff i gynnal gwerthusiadau ac adolygiadau ystyrlon,
- Gweithio gyda Gwasanaethau Tân ac Achub eraill Cymru, i ddatblygu dull cyson o werthuso,
- Cynnal gwerthusiadau a fydd yn sail i broses gynllunio Cynllun Gwella Blynyddol 2015-2016.

**Sut y byddwn yn mesur ac yn adrodd am ein cyflawniadau**

- Bydd rhaglen werthuso ledled y Gwasanaeth yn cael ei rhoi ar waith a'i defnyddio ar gyfer proses gynllunio blynyddol 2015-16,
- Bydd gennym well gwybodaeth / mwy o wybodaeth fel sail i gynllunio yn y dyfodol.

**Beth fydd hyn yn ei olygu i chi**

Byddwn yn medru dweud wrthych sut mae ein gweithredoedd wedi gwneud cymunedau'n fwy diogel trwy leihau risgiau a chynnal ein safonau darparu gwasanaethau gyda chyllideb lai, tra'n rhoi gwerth am arian ar yr un pryd.

# Geirfa

Mae'r rhestr ganlynol yn diffinio'r termau a ddefnyddir yn y ddogfen hon.

| | |
|---|---|
| **Tanau Damweiniol** | Yn cynnwys tanau lle nad yw'r achos yn hysbys neu ei fod yn amhenodol. |
| **Archwiliad Diogelwch Rhag Tân i Fusnesau** | Mae staff Diogelwch Rhag Tân o'r Gwasanaeth yn ymweld â safleoedd masnachol i roi cyngor ar ddiogelwch rhag tân. |
| **Staff Cymwys** | Canran y staff sy'n gymwys i gyflawni eu dyletswyddau. |
| **Dyddiau a gollwyd oherwydd salwch** | Nifer y dyddiau gwaith mae gweithiwr wedi eu colli oherwydd salwch. |
| **Tanau Bwriadol** | Yn cynnwys tanau lle mae amheuaeth eu bod wedi cael eu cynnau'n fwriadol. |
| **Gwerthuso** | Mae gwerthuso'n golygu barnu gwerth rhywun neu rywbeth, a defnyddir y canlyniad hwn fel sail i gynllunio yn y dyfodol. |
| **Anafiadau mewn Tanau** | Unrhyw anaf a ddioddefwyd o ganlyniad i dân. |
| **Ffug Alwad** | Galwad ffôn faleisus yn reportio digwyddiad nad sydd wedi digwydd mewn gwirionedd. |
| **Archwiliad Diogelwch Rhag Tân yn y Cartref** | Mae staff Diogelwch Rhag Tân o'r Gwasanaeth yn ymweld ag anheddau i roi cyngor ar ddiogelwch rhag tân ac i gyflenwi dyfeisiau darganfod tân. |
| **Argaeledd Peiriannau Ar Alwad** | Canran yr amser y mae peiriant ar gael i gyflawni ei rôl. |
| **Ymarferion Gweithredol** | Ymarfer hyfforddi sy'n cynnwys y Gwasanaeth. |
| **Tanau Sylfaenol** | Mae'r rhain yn danau adroddadwy sy'n cynnwys adeiladau, carafannau, cerbydau, storfeydd awyr agored, peiriannau, adeiladau amaethyddol neu unrhyw strwythurau awyr agored e.e.twneli, pontydd, ayb. |
| **Signalau Tân Diangen** | Signal a achoswyd gan offer darganfod tân awtomatig. |